PIVOTAL EDUCATION
BEHAVIOUR, SAFEGUARDING, TEACHING & LEARNING

Contributed and Translated by the Canolfan Bedwyr, Bedwyr Centre at Bangor University

1 Cymerwch yr awenau....

Chi yw'r athro a chi yw'r oedolyn, felly chi sy'n rheoli. Eich dosbarth chi ydy a rhaid i chi fynd ati'n ymwybodol i wneud y rheolau a'r penderfyniadau, yn hytrach na gadael i bethau ddigwydd fel arfer, oherwydd trefnu gwael ac yn ôl mympwy'r disgyblion.

Dangoswch mai chi yw'r bos trwy eich lleoliad yn y dosbarth; cadwch ar eich traed mor aml â phosib, a sefwch lle gallwch chi wylio popeth sy'n mynd ymlaen. Dylai disgyblion fod yn argyhoeddedig bod gennych lygaid yng nghefn eich pen! Sylwch ar y pethau da maent yn eu gwneud (gweler rhif 3 isod). Daliwch i symud o gwmpas y dosbarth er mwyn dangos mai chi yw'r canolbwynt diddordeb ac awdurdod.

Cofiwch fod angen i'r disgyblion deimlo'n ddiogel; fydd hynny ddim yn digwydd oni bai eich bod chi'n dal yr awenau. Peidiwch â chyfiawnhau nac ymddiheuro dros eich rheolau, eich safonau na'r ffaith eich bod yn mynnu bod y disgyblion yn cydymffurfio â nhw.

© Pivotal Education Ltd 2011 Pivotal Education: Training and Resources
Tel: 0207 0001735 Email: ask@pivotaleducation.com. Website: www.PivotalEducation.com

PIVOTAL EDUCATION
BEHAVIOUR, SAFEGUARDING, TEACHING & LEARNING

Contributed and Translated by the Canolfan Bedwyr, Bedwyr Centre at Bangor University

2 Defnyddiwch reolau cadarnhaol yn y dosbarth...

Mae angen i ddisgyblion wybod beth yr ydych yn ei ddisgwyl ganddynt yn eich dosbarth. Lluniwch gyfres o reolau, dim mwy na 4 neu 5, sy'n egluro'r ymddygiad a ddymunwch; gosodwch nhw mewn lle amlwg yn yr ystafell a chyfeiriwch atynt yn aml fel nad ydynt yn diflannu i mewn i'r papur wal!

Dylai'r rheolau ddweud wrth y disgyblion beth i'w wneud, yn hytrach na beth i beidio â'i wneud e.e.

- ✗ Peidiwch â gweiddi allan.
  - ✓ Rhowch eich llaw i fyny ac arhoswch eich tro.
- ✗ Peidiwch â cherdded o amgylch y dosbarth.
  - ✓ Arhoswch yn eich sedd.
- ✗ Peidiwch â thorri pethau.
  - ✓ Edrychwch ar ôl offer yn y dosbarth.

Canmolwch ymddygiad da a chyfeiriwch at y rheol sy'n cael ei dilyn. Defnyddiwch y rheolau i dynnu sylw at ymddygiad anaddas, "Cofiwch ein rheol am.."

Mynnwch gael ambell i reol 'arbennig' bob hyn a hyn. Ysgrifennwch y rheol ar y bwrdd du/gwyn a'i chysylltu â gwobr arbennig i'r unigolyn neu'r dosbarth os ydyw disgyblion yn dilyn y rheol.

© Pivotal Education Ltd 2011 Pivotal Education: Training and Resources
Tel: 0207 0001735 Email: ask@pivotaleducation.com. Website: www.PivotalEducation.com

PIVOTAL EDUCATION
BEHAVIOUR, SAFEGUARDING, TEACHING & LEARNING

Contributed and Translated by the Canolfan Bedwyr, Bedwyr Centre at Bangor University

3 Defnyddiwch wobrau er budd....

Rhowch wobrau addas i ddisgyblion am ymddygiad da, dechrau tasgau, cwblhau tasgau, dilyn rheolau'r dosbarth etc. Y nod yw sefydlu ARFER cydweithredu. Gellir codi safonau fesul tipyn ar ôl sefydlu'r arfer. Y wobr hawsaf, gyflymaf a'r wobr a werthfawrogir fwyaf yw canmoliaeth ddisgrifiadol.

Dyma wobrau posib eraill, heblaw'r rhai a ddefnyddir trwy'r ysgol gyfan

- Nodyn i rieni
- Enw ar siart arbennig sy'n ennill gwobr benodol yn nes ymlaen
- cael cyfrifoldebau arbennig
- Cael mynd yn gyntaf
- Cael dewisiadau ychwanegol

© Pivotal Education Ltd 2011 Pivotal Education: Training and Resources
Tel: 0207 0001735 Email: ask@pivotaleducation.com. Website: www.PivotalEducation.com

Contributed and Translated by the Canolfan Bedwyr, Bedwyr Centre at Bangor University

4 Daliwch y disgyblion yn ymddwyn yn dda....

Mae canmoliaeth yn fwy o ysgogiad na dim. Canmolwch y camau lleiaf i'r cyfeiriad iawn. Canmolwch yn aml, gan ddefnyddio canmoliaeth ddisgrifiadol, er enghraifft 'Mae'n gallu bod yn boen gorfod chwilio am eiriau yn y geiriadur. Dw i'n gweld eich bod yn dechrau colli amynedd ond mae'r geiriadur yn dal ar agor o'ch blaen chi. Dach chi ddim wedi rhoi'r gorau iddi.' Neu ' Dw i'n gweld nad ydych chi ddim eisiau dod i mewn ar ôl amser chwarae, ond rydych yn wynebu'r ffordd iawn i ddod i mewn.' Byddwch yn fodlon gwerthfawrogi'r ymdrech leiaf ac egluro pam mae'n eich plesio.

Ni fydd disgyblion yn meddwl eich bod yn rhy llym ac ni fyddant yn cwyno eich bod yn gwneud penderfyniadau cadarn os ydych yn cofio gwenu, beirniadu llai a chanmol mwy. Dywedwch wrth y disgyblion y bydd canlyniadau da i ymddygiad da, a chadwch at hynny.

Safwch eich tir a pheidiwch â gadael i'r disgyblion eich 'bwlio' i roi gwobrau nad ydynt wedi eu hennill.

Mae'n hawdd diystyru rhai mathau o ymddygiad da. Ceisiwch gofio canmol disgyblion am y pethau hyn

- Cyflwyno eu gwaith cartref mewn pryd
- Cyflwyno eu gwaith cartref yn hwyr ond o leiaf mae wedi cyrraedd
- Gweithio'n ddistaw
- Presenoldeb da
- Desg daclus
- Peidio â siglo ar y gadair
- Gwenu
- Cyfrannu at drafodaeth yn y dosbarth
- Helpu disgybl arall
- Peidio â chwerthin am ben camgymeriadau disgybl arall
- Dilyn eich cyfarwyddiadau'n syth
- Gwisgo sbectol
- Defnyddio synnwyr cyffredin

Defnyddiwch systemau gwobrwyo'r ysgol yn gyson ac yn deg.

© Pivotal Education Ltd 2011 Pivotal Education: Training and Resources
Tel: 0207 0001735 Email: ask@pivotaleducation.com. Website: www.PivotalEducation.com

Contributed and Translated by the Canolfan Bedwyr, Bedwyr Centre at Bangor University

5 Rhowch gyfarwyddiadau mewn modd eglur a phenodol...

Mynnwch gael sylw llawn disgybl cyn rhoi cyfarwyddiadau. Gwnewch yn siwr bod y disgybl yn edrych arnoch a ddim yn chwarae gyda phensil, troi rownd, edrych ar lyfr etc. Rhowch gyfarwyddiadau unwaith yn unig; os ydych yn tueddu i'w hailadrodd, heb i chi sylweddoli, fydd y disgyblion ddim yn trafferthu gwrando'r tro cyntaf. Gwenwch wrth i chi roi cyfarwyddiadau.

Peidiwch â bod yn amleiriog a pheidiwch â rhoi'r argraff bod ganddyn nhw ddewis trwy ddweud 'OK?' ar y diwedd neu 'Fyddech chi'n hoffi...?' 'Beth am...' 'Dach chi ddim yn meddwl y dylech...?' sy'n swnio fel pe baech yn awgrymu syniadau.

Eglurwch eich cyfarwyddiadau a'ch disgwyliadau. Mynnwch fod y disgybl yn eu hailadrodd o'ch blaen.

© Pivotal Education Ltd 2011 Pivotal Education: Training and Resources
Tel: 0207 0001735 Email: ask@pivotaleducation.com. Website: www.PivotalEducation.com

Contributed and Translated by the Canolfan Bedwyr, Bedwyr Centre at Bangor University

6 Delio ag ymddygiadau lefel isel cyn iddynt fynd yn waeth

Bydd ymddygiad gwael lefel isel neu ddibwys yn gwaethygu os nad ydych yn delio ag ef yn gyflym ac yn gyson.
Mae ymddygiad disgybl yn cael ei atgyfnerthu wrth gael sylw, ond peidiwch â mentro ei anwybyddu. Chwiliwch am ffordd dawel a digyffro o ddweud wrth y plentyn eich bod yn gweld yn union beth mae'n wneud a bod yna ganlyniad, heb wneud ffws, cynhyrfu neu swnio'n flin.

Rhowch eich cyfarwyddiadau unwaith yn unig. Os yw'r disgybl yn parhau i gamymddwyn, yn lle ailadrodd y cyfarwyddyd gwreiddiol, rhowch gynnig ar un neu fwy o'r camau gweithredu hyn.

- Pwyntiwch at le (ee ar y bwrdd du/gwyn, ar Post-It yn llyfr y disgybl, nodyn ar eich desg) lle gwnaethoch chi ysgrifennu'r cyfarwyddyd gwreiddiol wrth i chi ei roi am y tro cyntaf
- Disgrifiwch realiti, 'Aled rydych yn tapio eich pren mesur.'
- Stopiwch bopeth ac edrychwch yn benodol ar y disgybl ac arhoswch iddo/iddi ddeall pam
- Canmolwch yn ddisgrifiadol y disgyblion sy'n ymddwyn mewn ffordd addas, canmolwch y disgybl targed cyn gynted ag y bydd yn cydymffurfio.
- Gofynnwch i ddisgyblion eraill beth sydd ei angen (y ffactor embaras)

Gweithredwch bob tro, hyd yn oed ar bethau dibwys, fel bod y disgyblion yn gwybod nad oes dim diben eich gwthio chi. Dylen nhw wybod beth fydd yn digwydd. Rhowch ail gyfle dim ond ar ôl cyfnod o ymddygiad da.

© Pivotal Education Ltd 2011 Pivotal Education: Training and Resources
Tel: 0207 0001735 Email: ask@pivotaleducation.com. Website: www.PivotalEducation.com

Contributed and Translated by the Canolfan Bedwyr, Bedwyr Centre at Bangor University

7 Canlyniadau peidio â chydymffurfio...

Helpwch y disgybl i wneud beth bynnag rydych wedi gofyn iddo wneud. Os yw wedi taflu pensiliau ar y llawr, helpwch ef i'w codi.

Os nad yw disgybl yn ufuddhau'n syth i gyfarwyddiadau, peidiwch â rhoi'r ffidil yn y to. Daliwch i ddisgwyl. Canmolwch bob cam bach i'r cyfeiriad iawn, hyd yn oed absenoldeb ymddygiad anghywir. Er enghraifft, os ydych chi wedi gofyn i ddisgybl sefyll ar ei draed ac nad yw ef wedi gwneud hynny eto, gallech ddweud 'Rydych chi wedi stopio rhegi, diolch.'

Peidiwch ag amddiffyn y disgybl rhag canlyniadau ei weithredoedd neu ei ddiffyg gweithredoedd. Mae'r disgybl yn dewis a byddwch wedi dweud hynny wrtho, ac wedi rhoi rhybudd clir o'r canlyniad.

Dylai canlyniad fod yn anghyfforddus ond ni ddylai fod yn rhy llym neu bydd y disgybl yn gwylltio mwy. Pwrpas y canlyniad yw ysgogi'r disgybl i feddwl 'Piti mod i wedi gwneud hyn'.

Cadwch at restr o ganlyniadau hawdd eu gweithredu a'u monitro. Gallai'r rhain gynnwys

- Colli dewisiadau (ee lle i eistedd)
- Colli amser chwarae
- Colli braint
- Eistedd mewn distawrwydd am amser penodol

© Pivotal Education Ltd 2011 Pivotal Education: Training and Resources
Tel: 0207 0001735 Email: ask@pivotaleducation.com. Website: www.PivotalEducation.com

Contributed and Translated by the Canolfan Bedwyr, Bedwyr Centre at Bangor University

8 Chwiliwch am ganlyniad sy'n dda i'r ddwy ochr...

Peidiwch â chreu sefyllfa o wrthdaro lle bydd yn rhaid i chi neu'r disgybl gilio'n ôl. Siaradwch â'r disgybl am ei ddewisiadau a chanlyniadau ei ddewisiadau ac yna rhowch amser iddynt ymateb.

'Siôn, dw i eisiau i chi adael yr ystafell. Os ydych yn gwneud hynny nawr gallwn ni ddelio â'r mater yn gyflym. Os ydych yn dewis peidio yna byddwn yn defnyddio amser chwarae i siarad am hynny. Eich dewis chi ydi o. Byddaf yn cyfarfod â chi tu allan i'r drws mewn dau funud.' Yna cerddwch i ffwrdd ac arhoswch.

'Joe, rhowch eich ffon symudol yn eich bag neu ar fy nesg. Os ydych yn dewis peidio yna byddaf yn ei gymryd oddi arnoch'. Yna cerddwch i ffwrdd ac arhoswch.

© Pivotal Education Ltd 2011 Pivotal Education: Training and Resources
Tel: 0207 0001735 Email: ask@pivotaleducation.com. Website: www.PivotalEducation.com

Contributed and Translated by the Canolfan Bedwyr, Bedwyr Centre at Bangor University

9 Dilynwch drefn 'dechrau'r wers'....

Peidiwch byth â cheisio dysgu gwers nes bod y disgyblion yn barod. Mae'n gwastraffu egni pawb ac yn rhoi'r argraff mai gwaith yr athro yw gorfodi disgyblion i weithio ac mai eu gwaith nhw yw gwrthod, llusgo eu traed, tynnu sylw, weindio i fyny etc. Yn aml iawn maen nhw'n osgoi'r dasg oherwydd eu bod yn poeni'n ddistaw am y gwaith yr ydych yn mynd i ofyn iddynt ei wneud.

Dechreuwch y wers yn yr un ffordd bob tro; gweithgaredd tawel y gall disgyblion fynd i'r afael ag ef yn syth, heb fod angen eglurhad. Mae llawysgrifen, copïo'r WALT a'r WILF o'r bwrdd du/gwyn, ymarfer sillafu (geiriau allweddol cyfarwydd o'r pwnc dan sylw), mathemateg pen yn weithgareddau da i greu awyrgylch tawel. Peidiwch â chaniatáu trafodaeth na chael eich denu i drafod - dywedwch y bydd amser i hynny yn nes ymlaen a gwnewch yn siwr eich bod yn cadw at hynny.

Os ydych yn cymryd amser i sefydlu'r drefn hon, bydd y gwersi'n dechrau eu hunain! Fyddwch chi ddim yn wynebu brwydr ar ddechrau pob gwers i gael sylw'r disgyblion.

© Pivotal Education Ltd 2011 Pivotal Education: Training and Resources
Tel: 0207 0001735 Email: ask@pivotaleducation.com. Website: www.PivotalEducation.com

Contributed and Translated by the Canolfan Bedwyr, Bedwyr Centre at Bangor University

10 Rheoli diwedd y wers....

Peidiwch â rhedeg y wers tan y funud olaf, ac yna gorfod rhuthro oherwydd bod y dosbarth nesaf yn disgwyl. Neilltuwch amser i ddirwyn y wers i ben, ateb cwestiynau, cadw offer, cyfeirio at WILT a sut rydych chi wedi cyflawni'r gofynion, amlinellu cynlluniau ar gyfer y wers nesaf etc.

Cadwch gêm addysgol fer wrth gefn rhag ofn bod amser ar ôl.

Rheolwch y disgyblion wrth iddynt adael yr ystafell, mynnwch eu bod yn sefyll wrth eu cadeiriau ac yn aros nes eich bod yn gofyn iddynt adael. Cyfarchwch bob disgybl wrth ei enw a gofynnwch iddynt ddweud rhyw newyddion da iddynt am y wers neu soniwch am rywbeth da wnaethant heddiw. Anfonwch nhw allan fesul un.

© Pivotal Education Ltd 2011 Pivotal Education: Training and Resources
Tel: 0207 0001735 Email: ask@pivotaleducation.com. Website: www.PivotalEducation.com